

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	1af o Fai 2019
TEITL:	Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion maes y Gymraeg
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreiffiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:

Mae dau achos penodol wedi dod i'n sylw dros y misoedd diwethaf lle mae swyddogion y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn wrth hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod y trigolion yn cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o safon:

- 1. Hyfforddiant diogelwch IOSH** – cafodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant eu cydnabod yng ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau yn ddiweddar am eu gwaith i sicrhau bod modd cael hyfforddiant IOSH yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers cryn amser, roedd staff y Cyngor wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn, ond yn gorfod defnyddio deunyddiau Saesneg yn unig gan nad oedd y corff siartredig yn darparu deunyddiau dwyieithog. Roedd y mater wedi ei gyfeirio at y Comisiynydd er mwyn cael eu cefnogaeth nhw i ddwyn pwysau ar y darparwyr, ond yn y pen draw, ymdrechion swyddogion y Cyngor, yn tynnu sylw at ofynion y Safonau a galwadau gan staff am ddeunyddiau Cymraeg, lwyddodd i newid y sefyllfa.
- 2. Ffurflen ar lein newydd direct.gov ar gyfer Bathodyn Glas**

Mae Rheolwr Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd a'i swyddogion yn gweithio yn galed ar hyn o bryd i sicrhau bod y ffurflen ar-lein newydd ar gyfer ceisiadau Bathodyn Glas yn cwrdd a gofynion y Safonau a pholisi'r Cyngor. Roedd y swyddogion wedi sylwi wrth brofi'r system (cyn mynd yn fyw) bod nifer o wallau a chamgymeriadau gyda'r fersiwn Gymraeg, ac mae'r Cyngor wedi gwrthod trosglwyddo i'r system ar-lein newydd heb i newidiadau gael eu gwneud ac nes y bydd yn cyrraedd y safon disgwylidig. Maent wedi bod yn cydweithio gyda'r uned gyfieithu a thîm y we i wirio'r system, ac wedi codi'r mater efo'r darparwr ac efo Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau yn parhau ar hyn o bryd a'r system yn dal heb fynd yn fyw.

CWYNION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

Derbyniwyd 3 cwyn gan y Comisiynydd ers Ionawr 2019, gyda phenderfyniad i beidio ymchwilio ymhellach i'r tri yn dilyn derbyn manylion pellach gan y Cyngor.

CSG427 – E-bost safonol Saesneg yn unig wedi ei anfon mewn ymateb i e-bost Gymraeg anfonwyd at GwE. Terfynwyd yr ymchwiliad wedi i'r Comisiynydd dderbyn gohebiaeth gan uned Gyfreithiol y Cyngor oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd Safonau'r Cyngor yn berthnasol i GwE oherwydd eu statws fel cyd-bwyllgor ac y dylai'r Comisiynydd o'r herwydd osod safonau ar wahân, penodol ar eu cyfer.

CSG460 – Derbynneb uniaith Saesneg wedi ei anfon gan **Bartneriaeth Prosesau Cosb Cymru**. Roedd hyn wedi digwydd o ganlyniad i nam technegol ar ôl i'r gweinyddwyr wneud diweddariadau i'r system dalu. Roedd y mater eisoes wedi dod i sylw'r Cyngor ac wedi ei ddatrys erbyn derbyn y gwyn gan y Comisiynydd, a chytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor eisoes wedi delio gyda'r mater yn briodol.

Able2 – Derbyniwyd ymholiad gan y Comisiynydd am y gwasanaeth hwn, sydd yn cynnal asesiadau a phrosesu ceisiadau Bathodyn Glas ar ran y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyngor mai gwasanaeth dan reolaeth y Llywodraeth oedd hwn, a bod y Cyngor eisoes wedi derbyn sawl cwyn am y gwasanaeth ac wedi cyfeirio pryderon at y Llywodraeth am safon y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg ar sawl achlysur. Wedi adrodd hyn, cytunodd y Comisiynydd nad oedd cyfrifoldeb ar y Cyngor am y mater, ac maent wedi cyfeirio y gwyn a phryderon Cyngor Gwynedd at yr adran berthnasol yn y Llywodraeth.

CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Cyllid	2	Peiriannau ateb: 1 neges uniaith Saesneg ar beiriant ateb y gwasanaeth sy'n delio gyda cheisiadau pas bws. 1 neges uniaith Gymraeg ar beiriant ateb y gwasanaeth treth Cyngor.
Cefnogaeth Gorfforaethol	1	Ymholiad gan swyddog o GwE wedi i neges fewnol gael ei hanfon yn uniaith Gymraeg a'r Saesneg yn yr atodiad, yn ôl yr arfer ar gyfer cyfathrebu mewnol. Cadarnhawyd bod y neges yn cydymffurfio gyda gofynion y Polisi Iaith.